

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 10 MAWRTH 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Tom Defis.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Gareth John (cyswllt fideo), Ken Lloyd (cyswllt fideo), Ioan Matthews, Miriam Moules (cyswllt fideo), a Wyn Thomas

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
 Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid

365. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Emlyn Schiavone a Matthew Thomas.

366. Datgan Buddiannau

Dim

367. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyllid

Dim materion yn codi.

368. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer Mawrth 2022.

Ystyriodd yr aelodau'r taliadau a derbyniwyd y rhestr. Cynigiodd y Cynghorydd Ioan Matthews y dylai'r rhestr daliadau gwerth cyfanswm o **£61,852.14** gael ei chymeradwyo a'i llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc. Eiliodd y Cyng. Ken Lloyd y cynnig. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo pob taliad.

369. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i 28 Chwefror 2022

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 28 Chwefror 2022 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	92,071.83
HSBC Cyfrif Wrth Gefn	488,609.74
Cyfanswm yn y banc	580,681.57

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 28 Chwefror 2022:

Lwfans y Maer	-	£3,882.04
Ras y Maer	-	£5,846.06
Siop De Parc Caerfyrddin	-	£8,952.32

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 28 Chwefror 2022 oedd £597,498.45.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £124,541.53. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £472,956.92.
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £779,129, ac mae'r cyfan wedi'i dderbyn. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 28 Chwefror 2022.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

370. Rhestr o'r Incwm Misol

NODWYD y rhestr.

371. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

Ystyriwyd a **CHYMERADWYWYD** yr adroddiad gan y pwyllgor.

372. Rhestr dyledwyr

NODODD yr Aelodau'r amserlen a'r cynllun gweithredu arfaethedig i ddileu'r ddyled o *S3 Advertising Agency* fel incwm ychwanegol heb ei gyllidebu, nad oedd wedi golygu unrhyw wariant ychwanegol gan y Cyngor.

373. Adolygu Polisi Grantiau y Cyngor Tref

Ystyriwyd y polisi gan aelodau a chafodd ei **GYMERADWYO** heb newid.

374. Ceisiadau am Grantiau Bach a Chymorth Ariannol

Cyflwynwyd wyth cais i'r pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** y canlynol:

- Foothold Cymru*. Dim cyfraniad ar hyn o bryd ond dylid anfon ateb i holi am weithrediadau lleol yr elusen ac o bosibl ailystyried pan ddaw mwy o wybodaeth i law.
- Ambiwlans Awyr Cymru*. Mae'r elusen hon yn un o bedwar elusen fydd yn derbyn arian sy'n cael ei godi gan Ras y Maer 2022.
- Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig*, (cais am gyngor). Dim cyfraniad ar hyn o bryd ond cyfeirio at ffynonellau cymorth presennol ar gyfer y grŵp ac adolygu pan sefydlir y grŵp.
- Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen*. **CYTUNWYD** y Pwyllgor y dylid cyfrannu £200 i'r Eisteddfod fel y cytunwyd yng nghyllideb y Cyngor.

- v. *Marie Curie*. Cynigiodd y Cynghorydd Miriam Moules gyfraniad o £300 ac eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews. **CYTUNWYD** y cyfraniad gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.
- vi. *Shelter Cymru*. Cynigiodd y Cyng, Ioan Matthews na ddylid gwneud unrhyw gyfraniad ar hyn o bryd, ond dylid anfon ateb i holi am weithrediadau lleol yr elusen ac o bosibl ailystyried pan ddaw mwy o wybodaeth i law. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Wyn Thomas, roedd pawb o blaid a **CHYTUNWYD** y mater.
- vii. *Clwb Bowlio Caerfyrddin*. Cynigiodd y Cyng. Miriam Moules y dylai'r Cyngor Tref noddi gwobr enillydd y twrnamaint a chyfrannu £200 i Glwb Bowlio Caerfyrddin. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Gareth John, roedd pawb o blaid a **CHYTUNWYD** ar y cyfraniad.
- viii. *Tŷ Hafan*. Cynigiodd y Cyng. Ken Lloyd y dylai cyfraniad o £200 yn cael ei wneud i'r elusen. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ioan Matthews, a **CHYTUNWYD** ar y cyfraniad gan yr holl aelodau.

375. Ceisiadau am grantiau Parc Solar Red Court

i) *Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin*. Derbyniwyd cais i ariannu planwyr a phlanhigion ar y Cei a gafodd eu golchi i ffwrdd gan lifogydd. Cynigiodd y Cyng. Gareth John bod y cyfraniad o £450 y gofynnwyd amdano yn cael ei gefnogi. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Wyn Thomas a'i **GYTUNWYD** gan aelodau. Bydd cais am wybodaeth ynglŷn â sut i liniaru'r risg y byddai'r difrod yn digwydd eto.

376. Adolygiad o Strategaeth Fuddsoddi a Threfniadau Bancio'r Cyngor

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau bod y cyfraddau llog presennol yn isel iawn ac y gallai clymu arian y Cyngor mewn cyfrifon eraill greu anawsterau gweithredol gan fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw'n isel. Cynigiodd y Cyng. Ioan Matthews na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i drefniadau bancio ar hyn o bryd ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas. Cytunodd yr holl aelodau a **PHENDERFYNWYD** y sefyllfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.12 y.h.